

## DAVIES, JOHN (1737 - 1821), gweinidog yr Annibynwyr

**Enw:** John Davies  
**Dyddiad geni:** 1737  
**Dyddiad marw:** 1821  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** gweinidog yr Annibynwyr  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Thomas Harris Lewis

Ganwyd ym mhlwyf Llanllawddog, Sir Gaerfyrddin. Yn ôl pob tebyg, ni chafodd fawr o addysg. Yr oedd ei rieni yn aelodau o'r Eglwys Wladol, ond ymunodd ef â'r eglwys Annibynnol ym Mhencader pan oedd tuag 20 mlwydd oed, a dechreuodd bregethu. Urddwyd ef yn weinidog ar eglwys Pentre T Gwyn, Sir Gaerfyrddin, yn 1768. Derbyniodd alwad oddi wrth yr eglwysi yng Nghwm Llynfell, Cwm Aman, a'r Allt Wen tua diwedd y flwyddyn 1770 neu ddechrau 1771. Bu'n weinidog yno hyd ei farw ar 4 Rhagfyr 1821, ac fel ' Davies, Allt Wen ' yr adnabyddid ef yn gyffredin. Claddwyd ef ym mynwent Llangiwg.

Ceid llawer o ddadlau brwd ac ymbleidio mewn eglwysi Annibynnol yn y cyfnod hwn ynglŷn â Chalfiniaeth ac Arminiaeth. Pregethai John Davies yn rymus a dibaid yn erbyn Arminiaeth, a sonniodd amdano'n gyffredin fel ' yr hen Sion Galfin.' Ni feddai'r ysgolheictod a ystyrir yn hanfodol i bulpud yr Hen Annibyniaeth, ond yr oedd ganddo bersonoliaeth gref, natur wresog, a chynheddfau grymus. Gadawodd ei weinidogaeth faith ddylanwad mawr ar y cylch eang yr oedd yn weinidog arno, ac yr oedd yn flaenllaw yng nghymanfaoedd yr Annibynwyr.

### Awdur

Thomas Harris Lewis, (1972)

### Ffynonellau

*Hanes Eglwys Cwmllynfell* (1935), 28-37

*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, ii, 163-4

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru (Aberdâr 1867-70)*, 115-7

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20733370](https://www.wikidata.org/wiki/Q20733370)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

